# Mewnwelediad a Deallusrwydd Mawrth 2026

Yn ystod mis Mawrth 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â 21 o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen a siaradodd â chyfanswm o 222 pobl (141 Benyw a 81 Gwryw). Cafodd y tîm gyfle i ryngweithio â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys lleoliadau a grwpiau cymunedol, sgyrsiau gwybodaeth, a chyfadeiladau llety gwarchod.

## Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Mae ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS) yn isel o hyd, ond unwaith y caiff ei ddeall, caiff ei werthfawrogi'n fawr, yn enwedig gan rieni, pobl ar incwm isel a'r rheiny sy'n cael trafferth cael apwyntiadau gyda Meddyg Teulu.
- Mae mynediad i ofal deintyddol y GIG yn parhau i fod yn her sylweddol. Rhannodd nifer o bobl eu bod wedi methu â gweld deintydd y GIG am sawl blwyddyn, a chodwyd pryderon ynglŷn â phractisiau yn lleihau eu capasiti GIG neu'n symud i ofal preifatyn unig. Cyfeiriwyd nifer o bobl at y Porth Mynediad Deintyddol.
- Rhoddodd llawer o bobl wybod eu bod wedi gorfod aros yn hir ar linellau ffôn eu meddyg teulu wrth geisio trefnu apwyntiadau; ac arosiadau hir ar gyfer apwyntiadau rheolaidd, fodd bynnag, mae gofal clinigol yn cael ei ganmol yn aml unwaith y bydd cleifion yn cael eu gweld.
- Canmolwyd rhai gwasanaethau cymunedol a chyrsiau hunangymorth-, ond mae oedi o ran derbyn canlyniadau profion, apwyntiadau'n cael eu canslo a chyfathrebu anghyson yn parhau i danseilio ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau.
- Rhannwyd adborth positif am:
- Uned Asesu Brys Plant, gyda chymorth a phroffesiynoldeb y staff yn cael eu canmol.
- Staff nyrsio, a ddisgrifiwyd yn aml fel caredig, cefnogol, a'n gwneud eu gorau glas er gwaethaf y pwysau ar y system.
- Gofal gwell unwaith y bydd cleifion wedi'u derbyn ar gyfer llawdriniaeth neu driniaeth arbenigol.
- Roedd pobl yn gwerthfawrogi arweiniad clir, megis mynediad at fideos unedau mamolaeth, cymorth hunan-gyfeirio, a chyngor rhagsefydlu.





## Beth nesaf?

Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth ar:

- Sut y gall trigolion Gwent gael mynediad at **Wasanaethau Sgrinio Canser** a **Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a menopos**

Bydd y tîm hefyd yn cefnogi Coleg Gwent yn eu Ffair Iechyd a Lles ar gyfer 2026 ac yn siarad â myfyrwyr a staff am fynediad i ofal iechyd.

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**